


# CYSUR MEWN CASGLU

#CysurMewnCasglu

## DATHLU A PHROTESTIO

Mae ymuno â phobl eraill i orymdeithio, protestio neu ddathlu yn gallu bod yn gysur. Weithiau mae grwpiau sy'n ymddangos yn wahanol iawn i'w gilydd yn gallu ymuno â'i gilydd dros achos.

Ym 1984, ffurfiwyd cynghrair o ddynion a menywod hoyw i gefnogi Undeb Cenedlaethol y Glowyr (NUM) yn ystod streîc 1984-5. Bu grwp Lesbians and Gay Men Support the Miners (LGSM) yn codi arian ar gyfer glowyr ar streic a'u teuluoedd, gan lwyddo i gasglu degau o filoedd o bunnoedd.

Caiff yr hanes ei adrodd yn y ffilm Pride (2014).




*Copi o faner wreiddiol 'Lesbians and Gays Support the Miners' a wnaed ar gyfer y ffilm Pride (2014), oedd yn darlunio'r berthynas rhwng y gymuned LHDTQ ac ardaloedd glofaol de Cymru.*

Trefnodd LGSM gyngerdd i godi arian i'r NUM yn yr Electric Ballroom yn Camden. Ymysg y perfformwyr yn y gig 'Pits and Perverts' roedd Jimmy Somerville a Bronski Beat.




*Crys-t 'Pits and Perverts' a wnaed fel eitem farchnata ar gyfer y ffilm Pride (2014).*

# CYSUR MEWN CASGLU

#CysurMewnCasglu



Cerflun o ‘Bryn’, glöwr yn gwisgo crys-t ‘Lesbians and Gay Men’. Wedi’i greu gan Olivia Quail, mam Gethin Roberts gafodd ei bortreadu gan Andrew Scott yn y ffilm Pride (2014).






*Jason Hodges, cyn aelod o LGSM gyda’r bathodyn a roddwyd iddo yn ystod gorymdaith Gay Pride yn Llundain ym 1985. Y flwyddyn honno cafodd yr orymdaith ei harwain gan aelodau o Undeb Cenedlaethol y Glowyr i ddiolch i’r gymuned LHDTQ am eu cymorth yn ystod streic y glowyr 1984-5.*




*Dyluniad gwreiddiol gan Jonathan Blake ar gyfer bathodyn LGSM. Sylwer ar y triongl pinc, symbol gafodd ei ddefnyddio gan y Natsïaid mewn gwersylloedd crynhoi er mwyn dynodi carcharorion LHDTQ.*




# CYSUR MEWN CASGLU

#CysurMewnCasglu



ONLLWYN WELFARE HALL
THE PALACE OF CULTURE

NEUADD LÊS YR ONLLWYN
PALAS DYWILLIANT

A CELEBRATION THROUGH WORDS AND MUSIC
DATHLIAD TRWY AIR A CHÂN

MARK ASHTON
(1960-1987)

HEFINA HEADON
(1930-2013)

4th MAY/MAI 2019
Profits to/Elw: Palace of Culture/Palas Dywilliant

*Rhaglen digwyddiad i anrhydeddu Mark Ashton (1960-1987) o Lesbians and Gay Men Support the Miners a Hefina Headon (1930-2013), ysgrifennydd Grwp Cefnogi Menywod Cŵm Dulais. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Neuadd Les Onllwyn, 'The Palace of Culture', ar 4 Mai 2019. Roedd Mark Ashton a Hefina Headon yn flaenllaw wrth ddod â'r ddau fudiad ynghyd yn ystod streic y glowyr 1984-5, a dyma gefndir y ffilm Pride (2014).*

Ym 1985 ymunodd grŵp o lowyr â'r LGSM i arwain gorymdaith flynyddol Pride i mewn i Hyde Park yn Llundain, caiff hyn ei ddangos yn y ffilm.

Bu'r NUM yn dal i gefnogi hawliau LHDT mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys gwrthwynebu cyfraith ddadleuol Adran 28 a gyflwynwyd ym 1988 gan y llywodraeth Geidwadol, oedd yn rhwystro cynghorau ac ysgolion rhag 'hyrwyddo' perthnasau hoyw.

Mae digwyddiadau Pride fel arfer yn cynnwys gorymdeithio, cerddoriaeth a digwyddiadau eraill sy'n dathlu ac yn rhoi sylw i'r gymuned LHDTQ, gyda phobl o bob cwr o Gymru yn ymuno yn yr hwyl.

***Cwestiynau:***

***Ydych chi erioed wedi ymuno â phobl eraill i brotestio dros/yn erbyn rhywbeth?***

***Beth wnaeth i chi brotestio? Gyda phwy fuoch chi'n protestio? Wnaethoch chi ddefnyddio baneri, bathodynnau, placardiau ac ati?***

***Ydych chi erioed wedi cymryd rhan mewn dathliad gyda grŵp o bobl?***

***Beth oeddech chi'n ei ddathlu? Wnaethoch chi ddefnyddio baneri, bathodynnau, placardiau ac ati?***

***Allwch chi feddwl am unrhyw ffilmiau neu straeon am grwpiau o bobl yn protestio neu ddathlu?***

***Syniadau am weithgareddau:***

***Dyluniwch gerdyn post neu fathodyn er mwyn dathlu rhywbeth! Gallech ddewis dathlu pen-blwydd, dechrau'r Gwanwyn, dydd Gwener - unrhyw beth!***

***Gwyliwch y ffilm Pride.***

***Dyluniwch faner, bathodyn neu addurn ar gyfer dathlu gyda'ch grŵp.***

***Neu, dyluniwch faner, bathodyn neu addurn er mwyn dathlu'r grŵp ei hun!***

AMGUEDDFA CYMRU

museum.wales/wellbeing/objects-of-comfort